ardal

# Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

## RHIFYN CYNGOR CAERDYDD

MEHEFIN 2025

Y Cynghorau Ardal yw Cynghorau Caerdydd, Torfaen, Sir Fynwy a Bro Morgannwg a nhw sydd wedi datblygu'r Canllaw hwn.

CARDIFF
CAERDYDD

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

ardal




# POLISI CAFFAEL CYMDEITHASOL GYFRIFOL

Rhifyn Cyngor Caerdydd

| TUDALEN | CYNNWYS |
|---|---|
| 4 | Cyflwyniad |
| 5 | Caffael Ardal – Gweithio gyda'n gilydd i greu newid |
| 6 | Diben |
| 7 | Ein Fframwaith Polisi |
| 8 | Deddfwriaeth Allweddol sy'n Llywio ein Polisi |
| 9 | Ein Blaenoriaethau Lleol |
| 10 | Cyflawni Lles trwy Gaffael |
| 11 | Ein dull tuag at Fuddion Lles Cymunedol |
| 12 | Ein Hamcanion Cymdeithasol Gyfrifol: |
| 12 | • Lleihau allyriadau carbon |
| 13 | • Gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth |
| 15 | • Ymgorffori Gwaith Teg a Chyflogaeth Foesegol |
| 16 | • Creu Cyflogaeth Gynaliadwy a Thwf Sgiliau |
| 18 | • Gweithio gyda'n Cymunedau |
| 19 | • Diogelu lles pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed |
| 19 | • Cefnogi ein Heconomi Leol |
| 19 | • Hyrwyddo Diwylliant, Treftadaeth ac Iaith Gymraeg Fywiog |
| 20 | Monitro ac Adrodd |
| 20 | Cysylltu â ni |

# CYFLWYNIAD

Mae'r gwasanaeth caffael Ardal, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Caerdydd, yn darparu'r bartneriaeth gaffael cydweithredol rhwng Cyngor Caerdydd, Sir Fynwy, Torfaen a Bro Morgannwg. Nod Ardal yw darparu gwerth am arian a chaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol i'n partneriaid Ardal drwy rannu adnoddau, gwybodaeth, dysgu ac arbenigedd.

Mae Cyngor Caerdydd yn gwario £783 miliwn y flwyddyn ar brynu ystod amrywiol o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau gwerth am arian trwy ei brosesau caffael, ond mae hefyd yn cydnabod yr effaith ehangach ar les y gall ei benderfyniadau ei chael. Felly, bydd y Cyngor yn defnyddio ei bŵer prynu i leihau ein hôl troed carbon ni a'n cyflenwyr, i gefnogi ein heconomi leol a swyddi lleol, i helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb trwy waith teg ac arferion cyflogaeth moesegol, ac i gefnogi ein cymunedau lleol drwy greu swyddi, twf sgiliau a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

I'r perwyl hwn, mae Cyngor Caerdydd wedi gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy, Torfaen a Bro Morgannwg o fewn cydweithrediad Caffael Ardal i ddatblygu ac ymrwymo i'r wyth Amcan Cymdeithasol Gyfrifol yn y Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol hwn. Er y bydd y polisi hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i'r agenda hon a'n cynnydd yn ei herbyn, credwn y gallwn wneud gwahaniaeth trwy alinio ein harfer i ganiatáu inni ddysgu oddi wrth ein gilydd, ond hefyd i'w gwneud hi'n haws i'r cyflenwyr a'r contractwyr yr ydym yn dibynnu arnynt i gyflawni llawer o'n dyheadau a'n blaenoriaethau.

Bydd pob Cyngor Ardal yn mabwysiadu ei Bolisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol ei hun wedi'i ddatblygu o amgylch yr un wyth Amcan Cymdeithasol Gyfrifol, ond sy'n nodi eu blaenoriaethau lleol.



# CAFFAEL ARDAL – GWEITHIO GYDA'N GILYDD I GREU NEWID

Ein Hamcanion Caffael Cyffredin

- Cyfrannu at fod yn garbon niwtral erbyn 2030.
- Gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector.
- Gwella buddion lles cymdeithasol a gyflawnir gan gyflenwyr.
- Gwella arferion gwaith teg a mabwysiadu arferion diogelu gan gyflenwyr.

**Mae'r gwasanaeth caffael Ardal, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Caerdydd, yn darparu'r bartneriaeth gaffael cydweithredol rhwng Cyngor Caerdydd, Sir Fynwy, Torfaen a Bro Morgannwg. Ein nod yw darparu gwerth am arian a chaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol i'n partneriaid Ardal drwy rannu adnoddau, gwybodaeth, dysgu ac arbenigedd.**

Yn ystod 2024/25 gwariodd y pedwar Awdurdod dros £1.3 biliwn yn prynu ystod amrywiol o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 15,000 o gyflenwyr a chontractwyr.

Mae pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol yn cydnabod y rôl allweddol y bydd caffael yn ei chwarae wrth gyflymu'r symudiad i sero net, sicrhau gwaith teg a chyflogaeth foesegol trwy ein cadwyni cyflenwi, a gwneud y mwyaf o effaith economaidd a chymdeithasol leol ein gwariant er mwyn helpu i drechu tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Adlewyrchir hyn yn **Ein Hamcanion Caffael Cyffredin** sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Gaffael pob Awdurdod.

Er mwyn cefnogi hyn, mae pob un o'r pedwar awdurdod wedi helpu i ddatblygu **Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol**. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r gofynion deddfwriaethol a grynhoir yn y ddogfen hon, mae hefyd yn adlewyrchu'r ymrwymiad polisi cryf y mae'r pedwar awdurdod wedi'i wneud trwy eu cynlluniau corfforaethol, polisïau a datganiadau cyhoeddus eu hunain.

Trwy weithio gyda'n gilydd, credwn y gallwn ymgorffori'r blaenoriaethau hyn yn y ffordd yr ydym yn rheoli ein gweithgareddau caffael ac, yn bwysig, darparu cysondeb i'r rhai sy'n gweithio gyda ni o ran disgwyliadau a gofynion.

Mae'r ddogfen bolisi hon yn cynnwys fframwaith Polisi Lles, wedi'i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar gyfer cyflawni **lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol** a gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni'r nodau lles.

Mae'n nodi pa gamau y bydd y pedwar awdurdod Ardal yn eu cymryd i weithredu **Caffael Cymdeithasol Gyfrifol** ac, yn bwysig, yn nodi disgwyliad clir o'r hyn sy'n ofynnol gan ein cyflenwyr a'n contractwyr.

Ar y cyd â **Chanllaw Gwerthu i'r Cyngor** Ardal, dylai darpar gyflenwyr a chontractwyr a'r rhai presennol fod yn ymwybodol o'r gofynion a gynhwysir yn y polisi hwn. Bydd rhai o'r rhain yn ofynion sylfaenol ar gyfer pob contract, tra bydd eraill yn berthnasol i gontractau dros werth contract penodol neu lle mae contract yn cael effaith benodol ar les.

Er mwyn sicrhau bod ein proses gaffael yn gymesur, ac nad yw'n creu unrhyw rwystrau diangen i gymryd rhan, bydd y gofynion gwirioneddol y bydd disgwyl i chi eu bodloni a/neu gydymffurfio â nhw yn amrywio ar gyfer pob tendr. Fodd bynnag, os ydych chi'n ystyried cynnig am gontractau, neu wrthi'n gwneud hynny ar hyn o bryd, byddem yn disgwyl i chi a'ch cadwyni cyflenwi allu ymateb yn gadarnhaol yn erbyn y gofynion a nodir yn y polisi hwn.

Hyd yn oed os ydych chi'n un o'r nifer o gyflenwyr a chontractwyr sydd eisoes yn gweithio gyda ni, rydym yn dal i ddisgwyl i chi ystyried sut y gallwch ein cefnogi i gyflawni'r polisi hwn yn ystod cyfnod unrhyw gontract.

Er ei bod yn ddogfen at ddibenion allanol yn bennaf, y disgwyliad yw bod y polisi hwn yn cael ei ddeall a'i ddilyn gan swyddogion y Cyngor i wneud yn siŵr bod gofynion ac ymrwymiadau yn cael eu sicrhau i gyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd gan awdurdodau partner Ardal.

### Beth mae Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn ei olygu?

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ar bob cyngor yng Nghymru i geisio gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol.

Mae hyn yn golygu gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei diffinio fel ***'gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain'.***

# EIN FFRAMWAITH POLISI

Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith lles i sicrhau dull cydweithredol cyson tuag at gyflawni 'Caffael Cymdeithasol Gyfrifol' sy'n crynhoi gofynion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a blaenoriaethau partneriaid Ardal. Mae ein fframwaith polisi yn cynnwys wyth amcan Cymdeithasol Gyfrifol sydd wedi'u halinio â'r pedwar Canlyniad Lles. Yn sail i'r rhain mae ein hymrwymiad i fod yn gyfrifol yn fyd-eang.

| | AMGYLCHEDDOL | | CYMDEITHASOL | | | | ECONOMAIDD | DIWYLLIANNOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EIN WYTH AMCAN CYMDEITHASOL GYFRIFOL | LLEIHAU ALLYRIADAU CARBON | GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL A BIOAMRYWIAETH | YMGORFFORI GWAITH TEG A CHYFLOGAETH FOESEGOL | CREU CYFLOGAETH GYNALIADWY A THWF SGILIAU | GWEITHIO GYDA'N CYMUNEDAU | DIOGELU LLES POBL IFANC AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED | CEFNOGI EIN HECONOMI LEOL | HYRWYDDO DIWYLLIANT, TREFTADAETH AC IAITH GYMRAEG FYWIOG |
| BYDD EIN FFOCWS AR | Herio ein hangen i brynu. Gweithio gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr i leihau effaith carbon y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith rydym yn eu prynu i gefnogi ein hymrwymiad i fod yn | Defnyddio egwyddorion economi gylchol i ddiogelu'r amgylchedd naturiol, lleihau gwastraff a lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol trwy eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. | Ymgorffori'r safonau moesegol uchaf ar draws ein cadwyn gyflenwi, sicrhau gwaith teg, a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl leol i leihau diweithdra a chodi'r lefel sgiliau, yn enwedig i bobl leol o grwpiau difreintiedig. | Gweithio gyda'n cymunedau, ysgolion a sefydliadau cymorth cymunedol, yn enwedig yn yr ardaloedd a'r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf. | Gwella lles pobl ifanc ac oedolion agored i niwed trwy sicrhau eu bod yn ddiogel, hyrwyddo eu hawliau, a chreu cyfleoedd i gyflawni eu potensial. | Hyrwyddo egwyddorion economi gylchol a chefnogi ein heconomi leol drwy ddefnyddio ein pŵer prynu i helpu busnesau lleol a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ffynnu a rhoi hwb i gyflogaeth leol. | Hyrwyddo diwylliant Cymru, treftadaeth Cymru a'r iaith Gymraeg. |

Mae rhagor o fanylion am bob amcan Cymdeithasol Gyfrifol wedi'u cynnwys yn nhudalennau 11 i 29. Ar gyfer pob amcan Cymdeithasol Gyfrifol, mae'r polisi hwn yn darparu manylion ar y cyd-destun polisi ehangach, datganiadau clir o'n huchelgeisiau o ran yr hyn y byddwn ni'n ei wneud a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan gyflenwyr a chontractwyr. Bydd y Polisi hwn yn cael ei gymhwyso mewn ffordd gymesur i adlewyrchu gwerth a math y contract.

# DEDDFWRIAETH ALLWEDDOL SY'N LLYWIO EIN POLISI

Mae'r polisi hwn wedi'i lywio a'i lunio gan ddeddfwriaeth Cymru a'r DU, polisi cenedlaethol, a blaenoriaethau polisi lleol ein partneriaid Ardal. Er ein bod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol, Nodiadau Polisi Caffael Cymru, polisi a chanllawiau cenedlaethol/lleol ehangach ac yn darparu dolenni iddynt drwy gydol y polisi hwn, mae'r canlynol yn ddeddfwriaeth allweddol yng Nghymru ac yn y DU:

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Cymru yw'r unig wlad yn y byd sydd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n nodi saith nod lles i Gymru:

- Cymru lewyrchus
- Cymru wydn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.




Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi "egwyddor datblygu cynaliadwy" ar waith sy'n cynnwys y "pum ffordd o weithio" i gyrff cyhoeddus yng Nghymru eu dilyn er mwyn cyflawni'r saith nod lles a gwella lles amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.




### Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Mae'r Ddeddf yn cydnabod bod Caffael yn ffordd bwysig o helpu i greu Cymru fwy cyfartal, mwy cynaliadwy a mwy ffyniannus.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gaffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol trwy weithredu'n gadarnhaol, yn unol â'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd gofyn i ni:

- Ystyried caffael cymdeithasol gyfrifol wrth gaffael ar gyfer contractau rhagnodedig.
- Cynnwys cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr a chymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn unrhyw gontractau allanol. (Mae'r gofynion cyfredol wedi'u cynnwys yn y polisi hwn yn erbyn yr Amcan Cymdeithasol Gyfrifol perthnasol.)
- Cyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu dilyn trwy gadwyni cyflenwi.
- Cyhoeddi Cofrestr Gontractau a Blaengynllun Contractau
- Paratoi Strategaeth Gaffael sy'n nodi sut rydym yn bwriadu cynnal caffael cyhoeddus.
- Llunio Adroddiad Caffael blynyddol.

### Deddf Caffael (2023)

Mae'r Ddeddf yn disodli'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (2015) a'i nod yw darparu system syml, hyblyg a thryloyw ar gyfer caffael yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r penawdau'n cynnwys:

- Ymgorffori system gaffael gwbl dryloyw drwy greu un platfform digidol ar gyfer caffael cyhoeddus.
- Dyletswydd i Gyhoeddi Hysbysiadau ar chwe cham allweddol o'r Cylch Caffael, gan gynnwys Hysbysiad Piblinell, Dyfarniadau Uniongyrchol, Amrywiadau.
- Darparu gwerth am arian, gwneud y mwyaf o fudd i'r cyhoedd, tryloywder a gweithredu gydag uniondeb.
- Dyletswydd i roi sylw i'r rhwystrau sy'n wynebu busnesau bach a chanolig a'r hyn y gellir ei wneud i'w goresgyn.
- Dyletswydd i nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau a chyfyngu ar amgylchiadau y gellir dyfarnu contractau heb gystadleuaeth.
- Cryfhau rheolau ynghylch Rheoli Contractau, talu'n brydlon a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad cyflenwyr.
- Mae fframwaith Gwaharddiadau a Rhestr Rhagwaharddiadau newydd yn darparu rheolau clir ar gyfer eithrio cyflenwyr.

# EIN BLAENORIAETHAU LLEOL

Yn ogystal â Deddfwriaeth a Pholisïau Cymru a'r DU, mae'r polisi hwn hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol Cyngor Caerdydd. Ym mis Mehefin 2022 cymeradwyodd Cyngor Caerdydd "Cryfach, Tecach, Gwyrddach" sy'n nodi agenda polisi'r weinyddiaeth ar gyfer y pum mlynedd canlynol, sef:

- Dinas gryfach, gydag economi sy'n creu ac yn cynnal swyddi sy'n talu'n dda, gyda system addysg sy'n helpu ein pobl ifanc i gyrraedd eu potensial, gyda thai da, fforddiadwy mewn cymunedau diogel, hyderus a grymus, i gyd yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus effeithlon sydd â digon o adnoddau.
- Dinas decach, lle gall pawb fwynhau'r cyfleoedd o fyw yng Nghaerdydd, beth bynnag fo'u cefndiroedd, lle mae'r rheini sy'n dioddef effeithiau tlodi'n cael eu diogelu a'u cefnogi, lle mae diwrnod teg o waith yn cael diwrnod teg o gyflog, a lle mae pob dinesydd yn cael ei werthfawrogi ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi hefyd.
- Yn ddinas wyrddach, a fydd, drwy ein rhaglen Caerdydd Un Blaned, yn arwain ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd, yn ddinas sy'n dathlu ac yn meithrin bioamrywiaeth, gyda mannau agored o ansawdd uchel o fewn cyrraedd hawdd i ymlacio a chwarae, yn ddinas gysylltiedig â dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy cyfleus, hygyrch a diogel.

Mae [Cynllun Corfforaethol] y Cyngor yn trosi'r ymrwymiadau a wnaed yn ei uchelgeisiau Cryfach, Tecach, Gwyrddach yn Amcanion Lles sefydliadol, gyda chefnogaeth camau CAMPUS, dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau.


Amcanion lles y Cyngor yw:

- **Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu**
- **Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn**
- **Cefnogi pobl allan o dlodi**
- **Cymunedau diogel, hyderus a grymus**
- **Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru**
- **Caerdydd Un Blaned**
- **Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus**



Mae angen ystyried cyflawni lles ym mhob cam o'r cylch caffael.

Er mwyn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar les, mae angen i ni sicrhau ei fod yn cael ei ystyried yn llawn yn y cam cynllunio ac wrth ddiffinio gofynion ac yna'n cael ei ymgorffori mewn dogfennau tendr, tra'n sicrhau bod cyflawni'r contract yn cael ei reoli'n weithredol yn y cam rheoli contractau.




Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn nodi dyletswyddau rheoli contractau penodol i sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu cyflawni, a bod y rhwymedigaethau yn cael eu trosglwyddo i isgontractwyr mewn cadwyni cyflenwi.

**Mae'r ffyrdd y gellir ymgorffori a chyflawni lles trwy'r cylch caffael yn cynnwys, ymhlith eraill:**

- Annog atebion arloesol drwy ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad a thrwy ganolbwyntio ar ffyrdd newydd o weithio.
- Defnyddio'r Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy wrth ddatblygu manylebau i nodi cyfleoedd i brynu'n gynaliadwy, lleihau effaith carbon, gwastraff, ac unrhyw effaith amgylcheddol negyddol.
- Strwythuro prosesau tendro a dogfennau i wella hygyrchedd i fusnesau llai a'r trydydd sector.
- Gosod meini prawf dethol ar gyfer cynigwyr sy'n ystyried ystyriaethau lles sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth a pholisïau, gan gynnwys lleihau carbon, a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Ystyried effaith lles fel rhan o gost oes gyfan penderfyniadau a wneir wrth ddyfarnu contractau.
- Cynnwys Cymalau Gwaith Cyhoeddus Cymdeithasol a chymalau Cytundebol eraill i sicrhau bod ymrwymiadau lles yn cael eu deall a'u cyflawni.
- Sicrhau Buddion Lles Cymunedol ychwanegol gan gontractwyr sy'n mynd y tu hwnt i brif bwrpas y contract i helpu i gyflawni blaenoriaethau ehangach y Cyngor.
- Rheoli contractau'n effeithiol i sicrhau bod gofynion ac ymrwymiadau gwerth ychwanegol yn cael eu cyflawni.

# EIN DULL TUAG AT SICRHAU BUDDION LLES CYMUNEDOL

Mae Buddion Lles Cymunedol yn ymrwymiadau lles a gynigir gan gynigwyr sydd y tu hwnt i ofynion sylfaenol y contract h.y. y gofynion fel y nodir yn y fanyleb a/neu'r Telerau ac Amodau. Mae'r rhain hefyd yn cael eu galw'n Fuddion Cymunedol neu Werth Cymdeithasol. Maen nhw fel arfer yn cael eu ceisio mewn contractau gwerth uwch (dros £250,000 ar hyn o bryd), ond fe'u hanogir mewn contractau sy'n llai na'r gwerth hwn lle bo'n briodol.

**Am beth rydym yn chwilio?**

- Er bod rhagor o fanylion ym mhob un o'r themâu lles, rydym fel arfer yn ceisio Buddion Lles Cymunedol mewn perthynas â:
- Chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i grwpiau difreintiedig
- Cymorth i fentrau cymunedol, addysgol, amgylcheddol a diwylliannol a gyflwynir trwy Fentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol (MCCG) a Grwpiau Cymunedol
- Bydd tendrau unigol, yn enwedig ar gyfer prosiectau adeiladu mwy, fel arfer yn darparu rhagor o fanylion ar flaenoriaethau a mentrau penodol sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

**Sut rydyn ni'n gwneud hyn?**

- Ym mhob tendr perthnasol, fel arfer dros £250,000, rydym yn rhoi cyfle i gynigwyr gynnig ymrwymiadau Buddion Lles Cymunedol sy'n cael eu gwerthuso fel rhan o'u tendr – fel arfer mae hyn yn 5%-10% o'r pwysoliad gwerthuso cyffredinol.
- Rhaid i'r ymrwymiadau hyn fod yn gysylltiedig â chyflawni'r contract, ond ni allant gynnwys unrhyw beth sy'n un o brif ofynion y contract. Ein disgwyliad yw y bydd ymrwymiadau tendrwyr fel arfer yn cyfateb i 1% i 3% o werth y contract.
- Mae cynigwyr yn cofnodi eu hymrwymiadau fel targedau yn erbyn mesurau lles penodol a rhaid iddynt roi esboniad ysgrifenedig o sut y byddant yn cyflawni'r targed.
- Mae rhagor o wybodaeth am ein dull o geisio Buddion Lles Cymunedol ar gael ar ein gwefan yn ardal-procurement.gov.uk/CommunityWellbeingBenefits

Mae gweithiwr yn dod o **"Grŵp Difreintiedig"** os yw'r canlynol yn berthnasol i'r gweithiwr hwnnw:

- nid yw wedi bod mewn cyflogaeth â thâl reolaidd am y 6 mis blaenorol, neu
- mae rhwng 15 a 24 oed, neu
- nid yw wedi ennill cymhwyster addysg uwchradd uwch neu gymhwyster galwedigaethol (Dosbarthiad Safonol Rhyngwladol o Addysg 3) neu o fewn 2 flynedd i gwblhau addysg amser llawn ac nid yw wedi cael ei gyflogaeth gyflogedig reolaidd gyntaf, neu
- mae dros 50 oed, neu
- mae'n byw fel oedolyn sengl gydag un neu fwy o ddibynyddion
- mae'n gweithio mewn sector neu broffesiwn lle mae'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau o leiaf 25% yn uwch na'r anghydbwysedd cyfartalog rhwng y rhywiau ar draws y Deyrnas Unedig, ac mae'n perthyn i'r grŵp rhyw hwnnw nad oes ganddo gynrychiolaeth ddigonol, neu
- mae'n aelod o leiafrif ethnig ac mae angen datblygu ei broffil iaith, hyfforddiant galwedigaethol neu brofiad gwaith er mwyn gwella'r rhagolygon o gael mynediad i gyflogaeth sefydlog.



## *Beth rydyn ni am ei wneud*

a

## *Beth rydyn ni'n gofyn i'n contractwyr ei wneud*

**Mae'r amcan Cymdeithasol Gyfrifol hwn yn canolbwyntio ar weithio gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr i leihau effaith carbon y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith rydyn ni'n eu prynu i gefnogi ein hymrwymiad i fod yn Sero Net erbyn 2030.**

**Rydym eisiau:** lleihau allyriadau carbon y Cyngor i Sero Net erbyn 2030 drwy leihau effaith carbon y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith rydyn ni'n eu prynu.

**Rydym am weithio gyda sefydliadau sydd:** yn ymrwymedig ac yn gweithio'n weithredol i leihau eu hallyriadau carbon eu hunain a rhai eu cadwyni cyflenwi ac i fod yn Sero Net erbyn 2050.

**Rydym eisiau:**

- Defnyddio ein hegwyddorion Prynu'n Gyfrifol wrth gynllunio'r holl gaffaeliadau a herio'r angen i brynu yn gyffredinol. Defnyddio'r Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy wrth gynllunio pob pryniant ac ystyried modelau cyflawni amgen.
- Deall technolegau, cynhyrchion ac atebion newydd sy'n dod i'r amlwg a all gyflawni gofynion gydag ôl troed carbon is a defnyddio ein manylebau a'n gofynion i geisio atebion allyriadau carbon is.
- Sicrhau bod ein manylebau a'n gofynion yn unol â Chanllawiau Ardal.
- Sicrhau bod holl gynigwyr a chyflenwyr Cynghorau Ardal wedi ymrwymo i Sero Net erbyn 2050.
- Sicrhau bod gan bob cyflenwr a chontractwr sy'n cynnig am gontractau gwerth dros £6 miliwn (gan gynnwys TAW), ac sy'n cyflawni contractau o'r fath, Gynllun Lleihau Carbon wedi'i gyhoeddi ac annog hyn ar gyfer contractau sy'n is na'r gwerth hwnnw.
- Sicrhau bod meini prawf dyfarnu yn cymell cynigwyr i gyflwyno dulliau lleihau carbon.
- Sicrhau bod ymrwymiadau lleihau carbon yn cael eu cyflawni trwy gynnwys mesurau perfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol sy'n gofyn am adrodd ar allyriadau CO2e.
- Sicrhau bod ein cyflenwyr a'n contractwyr yn lleihau, a lle bo'n bosibl, yn dileu gwastraff i safleoedd tirlenwi ac yn glynu wrth ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer tynnu a gwaredu gwastraff a deunyddiau ailgylchadwy.

**Rydym yn gofyn bod ein contractwyr yn:**

- Cadarnhau eu hymrwymiad i fod yn Sero Net erbyn 2050 a chyflawni unrhyw gontract mewn modd sy'n cefnogi ymrwymiad y Cyngor i fod yn Sero Net erbyn 2030.
- Cyhoeddi Cynllun Lleihau Carbon ac ymrwymo i fonitro ac adrodd ar allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 yn flynyddol ac i gynllunio i leihau allyriadau (mae hyn yn ofyniad gorfodol ar gyfer pob contract dros £6 miliwn (gan gynnwys TAW) a bydd y trothwy hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gyda'r bwriad o'i ostwng).
- Gweithio tuag at fonitro ac adrodd ar yr Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (NTG) sy'n gysylltiedig â chyflawni'r holl gontractau dros £6 miliwn (gan gynnwys TAW).
- Gweithredu dull hierarchaeth caffael cynaliadwy trwy gydol ym mhob rhan o'u busnes i ddargyfeirio gwastraff anodd ei ailgylchu o safleoedd tirlenwi, defnyddio cynlluniau cymryd yn ôl ar gyfer offer trydanol ac electronig, a dileu deunydd pecynnu plastig untro trwy atebion a chynlluniau pecynnu y gellir eu hailddefnyddio.
- Ymrwymo i leihau'r defnydd o ynni, newid i ynni carbon isel, a blaenoriaethu dulliau trafnidiaeth allyriadau isel neu sero.
- Darparu hyfforddiant newid yn yr hinsawdd neu leihau carbon i'w staff.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â pherchennog y contract i nodi a gweithredu gwelliannau i leihau allyriadau carbon yn ystod cyfnod y contract.

**Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi**

- Mae gan y thema hon gysylltiadau cryf â'r uchelgais polisi o drosglwyddo i Gymru Sero Net erbyn 2050, a tharged Cymru sy'n Ddiwastraff 2050, a nodir yn y ddogfen strategaeth Mwy Nag Ailgylchu (strategaeth i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru).
- Mae Nodyn Polisi Caffael Cymru NPCC 12/21: Datgarboneiddio trwy gaffael - Mynd i'r afael â CO2e mewn cadwyni cyflenwi | LLYW.CYMRU) yn nodi canllawiau polisi pellach i gyrff sector cyhoeddus ledled Cymru.

**Mae'r amcan Cymdeithasol Gyfrifol hwn yn canolbwyntio ar ddiogelu'r amgylchedd naturiol a lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol trwy eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol a lleihau gwastraff.**

| | |
|---|---|
| **Rydym eisiau:** gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth a lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol trwy eu cyrchu'n gynaliadwy. | **Rydym eisiau gweithio gyda sefydliadau sydd:** yn cymryd camau cadarnhaol i leihau'r effaith negyddol ar natur a bioamrywiaeth ledled Cymru a thu hwnt i'n ffiniau |
| **Rydym eisiau:**<br>• Sicrhau bod ein manylebau a'n gofynion yn lleihau, a lle bo'n bosibl, yn dileu cynhyrchion sy'n dod o gynhyrchu anghynaliadwy sy'n cyfrannu at ddatgoedwigo (pren, soi, olew palmwydd).<br>• Sicrhau bod ein contractwyr yn ceisio lleihau'r defnydd o ddŵr ac osgoi llygredd afonydd.<br>• Sicrhau bod ein contractwyr yn lleihau eu dibyniaeth ar ddeunydd pecynnu plastig.<br>• Annog a hwyluso rhaglen o brosiectau plannu coed a thyfu planhigion i ddarparu elfen o wrthbwyso carbon sero net ac i helpu i wella'r cynefin naturiol a bioamrywiaeth leol.<br>• Annog cynhyrchu bwyd lleol cynaliadwy. | **Rydym yn gofyn bod ein contractwyr yn:**<br>• Sicrhau bod gan bren a chynhyrchion papur ardystiad Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) neu'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd neu eu bod wedi'u gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ac yn meddu ar ardystiad Ailgylchu'r FSC neu label eco neu debyg.<br>• Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir lle mae nwyddau neu wasanaethau a ddarperir yn debygol o gynhyrchu gwastraff e.e. ailddefnyddio deunyddiau lle bynnag y bo modd, ailgylchu a chompostio cymaint â phosibl.<br>• Lleihau'r defnydd o ddŵr lle bynnag y bo modd, a hyrwyddo'r defnydd effeithlon o ddŵr, offer a gwasanaethau, a lle bo'n briodol, meddu ar ddull gweithredol o reoli dŵr gyda thargedau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer lleihau'r defnydd o ddŵr yn ôl lleoliad a/neu weithgaredd.<br>• Sicrhau bod cynhyrchion glanhau yn rhydd o greulondeb ac nad ydynt wedi'u profi ar anifeiliaid.<br>• Sicrhau bod cynhyrchion gan gynnwys bwyd a chyflenwadau eraill yn dod o ffynonellau cynaliadwy nad ydynt wedi cael effaith rhy negyddol ar yr amgylchedd naturiol ac nad ydynt wedi cyfrannu at ddatgoedwigo.<br><br>**Rydym yn annog ein contractwyr i:**<br>• Gefnogi mentrau i ddiogelu a gwella cynefin naturiol a bioamrywiaeth yr Awdurdodau. |

**Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi**

- Bydd gan y thema hon gysylltiadau cryf â'r uchelgais o drosglwyddo i Gymru Sero Net erbyn 2050.
- Mae bioamrywiaeth ac elfennau'r amgylchedd naturiol yn gysylltiedig ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru): Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau.
- Mae canllawiau ar leihau effeithiau ar yr amgylchedd naturiol y tu hwnt i'n ffiniau yn Busnes Dim Datgoedwigo - Maint Cymru - https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/01/SizeOfWales-DeforestationToolkit-Welsh-Jan2023.pdf.
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

**Mae'r amcan Cymdeithasol Gyfrifol hwn yn ymgorffori'r safonau moesegol uchaf ar draws ein cadwyn gyflenwi, sicrhau gwaith teg, a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.**

**Rydym eisiau:** sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â hawliau cyflogaeth (gan gynnwys yr isafswm cyflog a chyflog byw), cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, iechyd a diogelwch, a chynrychiolaeth undebau llafur.

**Rydym eisiau gweithio gyda sefydliadau sydd:** yn mynd y tu hwnt i'w rhwymedigaethau cyfreithiol i gynnal safonau uchel o ymddygiad moesegol, trin eu gweithwyr yn deg a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau.

**Rydym eisiau:**

- Gweithredu ac ymgorffori'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn ein gweithgareddau caffael drwy fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol, cosbrestru, hunangyflogaeth ffug, defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a chontractau dim oriau.
- Annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i fabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a'u hannog i ddod yn Sefydliad Cyflog Byw Achrededig.
- Hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant, cydraddoldeb a thegwch drwy annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i gynnal arferion gwaith hyblyg a pholisïau gwaith sy'n lleihau'r risg o wahaniaethu a chanlyniadau gwahaniaethu o ganlyniad i fwlio a/neu aflonyddu mewn perthynas â 'nodweddion gwarchodedig' y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Sicrhau bod ein cyflenwyr a'n contractwyr yn cymryd pob cam posibl i wneud yn siŵr bod risgiau masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern yn cael eu lliniaru yn unrhyw un o'u cadwyni cyflenwi neu eu gweithrediadau eu hunain.
- Sicrhau bod gan ein cyflenwyr a'n contractwyr polisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch effeithiol ar waith a bod y rhain yn cael eu gweithredu.

**Rydym yn gofyn bod ein contractwyr yn:**

- Cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth, cysylltiadau diwydiannol, cydraddoldeb ac iechyd a diogelwch ar gyfer contractwyr, a sicrhau bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei gymhwyso ar draws cadwyni cyflenwi.
- Cadw at y Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a'u hannog i lofnodi'r cod.
- Osgoi'r defnydd gormodol o gontractau annheg a chontractau dim oriau, a'u defnyddio dim ond pan fyddant yn amlwg yn fuddiol i'r cyflogwr a'r gweithiwr.
- Ymrwymo i ymarfer gwaith sy'n gwella iechyd corfforol a meddyliol gweithwyr.
- Cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau perthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Meddu ar bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Cynhwysiant clir a chyfredol, a darparu hyfforddiant i bob cyflogai (Gofyniad Gorfodol ar bob contract dros £2 miliwn).
- Arallgyfeirio eu gweithlu trwy raglenni recriwtio sy'n cynnwys pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig.
- Cydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 lle bynnag y mae'n berthnasol, ac ymgymryd â diwydrwydd dyladwy caethwasiaeth fodern yn y gadwyn gyflenwi yn rheolaidd lle bo hynny'n briodol.
- Caniatáu mynediad i Undebau Llafur a Chydfargeinio.
- Casglu a monitro data cydraddoldeb gan ei weithwyr ar gyfer pob contract o £2 miliwn neu uwch.

**Rydym yn annog ein contractwyr i:**

- Talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff ac ymrwymo i ddod yn Sefydliad Cyflog Byw Achrededig
- Meddu ar arferion gweithio hyblyg, a pholisïau gwaith sy'n ystyriol o LHDTC+ / ailbennu rhywedd sy'n gynhwysol yn eu hyfforddiant cydraddoldeb
- Casglu a monitro data cydraddoldebau gan ei weithwyr ar gyfer contractau o dan £2 miliwn.

**Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi**

- Mae'r thema hon yn gofyn am gydymffurfiaeth â chyfraith cyflogaeth, cysylltiadau diwydiannol, cydraddoldeb ac iechyd a diogelwch gan gontractwyr, a bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei gymhwyso ledled cadwyni cyflenwi. Yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith, y bwriad yw annog mabwysiadu arferion sy'n gyson â gwaith teg ac sy'n rhagori ar y llinell sylfaen a ddarperir gan gyfraith cyflogaeth, cysylltiadau diwydiannol, cydraddoldebau ac iechyd a diogelwch.
- Mae datblygiadau polisi yn y maes hwn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a'i Ganllawiau, yn enwedig y rhai ar fynd i'r afael ag arferion cosbrestru ac arferion cyflogaeth annheg, a ddrafftiwyd i ddechrau i fynd i'r afael â heriau yn y sector adeiladu. Nodyn Polisi Caffael Cymru NPCC 11/21: Arferion cyflogaeth moesegol yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus – cyngor i Sector Cyhoeddus Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU.
- Mae'r Cod yn cael ei ategu gan yr agenda Gwaith Teg yng Nghymru.
- Maes pwysig arall yw'r Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010), gyda dolenni pellach i'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru | LLYW.CYMRU a Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 | LLYW.CYMRU.
- Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cyngor Caerdydd
- O ran dolenni Cyfrifol yn Fyd-eang, mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, a'r Rhaglen Cymru ac Affrica.

**Mae'r amcan Cymdeithasol Gyfrifol hwn yn canolbwyntio ar greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl leol i leihau diweithdra a chodi'r lefel sgiliau, yn enwedig i bobl leol o grwpiau difreintiedig.**

| | |
|---|---|
| **Rydym eisiau:** creu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy i bobl leol trwy sgiliau a llwybrau hyfforddi, gan ganolbwyntio ar bobl o grwpiau difreintiedig. | **Rydym am weithio gyda sefydliadau:** fydd yn ymrwymo trwy gyflenwi contract i gefnogi creu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth i bobl leol o grwpiau difreintiedig. |
| **Rydym eisiau:**<br>• Darparu cyfleoedd cyflogaeth i hwyluso cyflogaeth hirdymor cynaliadwy i grwpiau difreintiedig dynodedig.<br>• Creu cyfleoedd a chydlynu mynediad ar gyfer prentisiaethau, interniaethau a lleoliadau gwaith, sy'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer ein cymunedau.<br>• Creu mwy o gyfleoedd i drigolion lleol a chydlynu mynediad i brentisiaid lefel uwch / prentisiaid gradd.<br>• Darparu cyfleoedd profiad gwaith a chyfleoedd gwaith i drigolion lleol difreintiedig sy'n ddi-waith neu sydd wedi'u tangyflogi.<br>• Gwella a chefnogi llwybrau i alluogi gweithwyr i symud o'r rhai mewn diwydiannau carbon uchel traddodiadol i ailhyfforddi a symud i ddiwydiannau carbon isel.<br>• Gweithio gyda phartneriaid i nodi bylchau sgiliau ac yna datblygu rhaglenni/cyrsiau i fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau hyn h.y. lleihau carbon a diwydiannau 'gwyrdd'.<br>• Dileu rhwystrau at waith. | **Rydym yn gofyn bod ein contractwyr yn:**<br>• Dangos ymrwymiad cryf i ddarparu cyflogaeth, prentisiaethau, hyfforddiant llwybrau cyflogaeth â chymorth a chyfleoedd lleoliad gwaith, i drigolion lleol ac yn arbennig, i grwpiau difreintiedig.<br>• Gweithio gyda'n timau Cyflogadwyedd a Sgiliau i gydlynu cyflawni unrhyw ymrwymiadau cyflogaeth neu hyfforddiant ar gyfer llwybrau â chymorth ac sydd wedi'u teilwra i gefnogi grwpiau difreintiedig gan gynnwys Pobl Ifanc â Phrofiad o Fod Mewn Gofal a Phlant sy'n Derbyn Gofal (PDG) a'r rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).<br>• Defnyddio cysylltiadau partner gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau a Gyrfa Cymru i ddarparu amlygiad i gyfleoedd cyflogaeth.<br>• Datblygu cynlluniau cyflogadwyedd a sgiliau sy'n amlinellu sut y byddant yn cyflawni unrhyw ymrwymiadau a wneir mewn tendrau.<br>• Gwneud defnydd llawn o'r Prentisiaethau Cenedlaethol a darparwyr sgiliau i gynyddu cyfleoedd prentisiaid.<br>• Gweithio gydag ysgolion, colegau a gwasanaethau cymorth ieuenctid i helpu i arfogi pobl ifanc â'r sgiliau cywir i gyd-fynd â gofynion y farchnad lafur gan gynnwys lleoliadau profiad gwaith (â thâl lle bo'n briodol) a chymorth gyrfaoedd. |

**Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi**

- Mae'r thema hon yn cysylltu â chynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau: Cymru gryfach, decach a gwyrddach sy'n cynnwys y blaenoriaethau allweddol canlynol:
  1. Pobl ifanc yn gwireddu eu potensial.
  2. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd.
  3. Hyrwyddo Gwaith Teg i bawb.
  4. Cefnogi pobl â chyflwr iechyd hirdymor i weithio.
  5. Meithrin diwylliant dysgu i fyw.
- Ffocws allweddol y polisi hwn felly yw sicrhau cyflogaeth hirdymor, gan fynd i'r afael â bylchau sgiliau drwy gefnogi hyfforddiant ac uwchsgilio pobl sydd mewn ac allan o gyflogaeth gan gynnwys prentisiaethau a hyfforddeiaethau. Yn allweddol i hyn mae cael gwared ar rwystrau at waith i bobl dan anfantais a phobl â nodweddion gwarchodedig.
- Mae dolenni pwysig eraill yn cynnwys Cynllun Gweithredu LHDTC+, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cymru o Blaid Pobl Hŷn, Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol, Gweithredu ar Anabledd a Cymru Fwy Cyfartal, a rhaglenni uwchsgilio gan gynnwys: Gwarant i Bobl Ifanc, Twf Swyddi Cymru +, Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net, a Dysgu am Oes.

**Mae'r amcan Cymdeithasol Gyfrifol hwn yn canolbwyntio ar weithio gyda'n cymunedau, ysgolion a sefydliadau cymorth cymunedol, yn enwedig yn yr ardaloedd a'r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf.**

**Rydym eisiau:** cefnogi ein cymunedau, ysgolion, gwasanaethau cymorth ieuenctid a grwpiau cymunedol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb gan dargedu ymdrech tuag at y rhai sydd dan anfantais fwyaf.

**Rydym eisiau gweithio gyda sefydliadau sydd:** yn ymrwymo i chwarae rhan weithredol mewn cymunedau lleol, gan weithio gyda sefydliadau cymunedol lleol i ddarparu buddion lles ychwanegol, wedi'u targedu at ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.

**Rydym eisiau:**

- Sicrhau gwirfoddoli a chymorth mewn nwyddau i grwpiau a mentrau cymunedol lleol drwy annog cyflenwyr a chontractwyr i gynnig ymrwymiadau Buddion Lles Cymunedol trwy ein contractau sydd:
  - o Yn helpu i gefnogi iechyd a lles cymunedau drwy gysylltu ymrwymiadau contractwyr ag ysgolion a cholegau, grwpiau cymunedol a grwpiau trigolion lleol i helpu i wella cyfleusterau lleol, a chynnal neu noddi gweithgareddau / digwyddiadau, a fydd o fudd uniongyrchol i'r rhai sy'n byw yno.
  - o Cefnogi twf Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol a sefydliadau cymunedol h.y. nid yn unig mewn rhoddion nwyddau, ond hefyd drwy wasanaethau a chyngor proffesiynol.
  - o Cefnogi cymunedau lleol i gymryd rhan mewn prosiectau sy'n Deall Dementia.
  - o Cefnogi cymunedau lleol i gynnal digwyddiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd gan gynnwys gofod cymunedol celfyddydol, diwylliannol, bwyd / tyfu, chwaraeon neu adfywio.
- Sicrhau bod unrhyw Fuddion Lles Cymunedol yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau fel y nodir yn y dogfennau tendro.
- Datblygu a hyrwyddo Cynllun Buddion Lles Cymunedol i greu cofrestr o brosiectau cymunedol sy'n chwilio am gymorth.

**Rydym yn gofyn bod ein contractwyr yn:**

- Dangos ymrwymiad cryf i gefnogi grwpiau a mentrau cymunedol lleol sy'n helpu i gefnogi iechyd a lles cymunedau.
- Gweithio yn weithredol ac ystyrlon gyda thimau'r Cyngor, Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol a Grwpiau Cymunedol i gyflawni, fel isafswm, unrhyw ymrwymiadau cytundebol a wnaed.

**Rydym yn annog ein contractwyr i:**

- Wneud ymrwymiadau Buddion Lles Cymunedol i gefnogi mentrau cymunedol ac addysgol.
- Gweithio gyda'n timau Cynhwysiant Cymunedol, Gwasanaethau Ieuenctid, Clystyrau/Ysgolion Bro a sefydliadau eraill sydd eisoes yn gweithio yn ein cymunedau.
- Hyrwyddo a / neu gefnogi rhaglenni sy'n annog pobl i wirfoddoli yn eu cymunedau.

**Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi**

- Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn darparu ystod o ddogfennau sy'n cefnogi sefydliadau ar eu taith i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Nod Llesiant "Cymru o Gymunedau Cydlynol".
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymru hyrwyddo lles y rhai sydd angen gofal a chymorth, neu ofalwyr sydd angen cymorth.

**Mae'r amcan Cymdeithasol Gyfrifol hwn yn canolbwyntio ar wella lles pobl ifanc ac oedolion agored i niwed trwy sicrhau eu bod yn ddiogel, hyrwyddo eu hawliau, a chreu cyfleoedd i gyflawni eu potensial.**

**Rydym eisiau:** diogelu a hyrwyddo hawliau plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

**Rydym eisiau gweithio gyda sefydliadau:** Fydd yn gweithio gyda'r Cyngor a'n cymunedau i ddiogelu pobl ifanc ac oedolion agored i niwed ac i hyrwyddo a hwyluso annibyniaeth.

**Rydym eisiau:**
- Sicrhau bod contractwyr yn cadw at Bolisi Diogelu'r Cyngor ar gyfer Contractwyr a bod eu gweithwyr yn gallu nodi cam-drin neu ecsbloetio a chymryd cyfrifoldeb am adrodd am bryderon mewn ffordd briodol ac amserol.
- Annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i gefnogi ystod o raglenni a mentrau gan gynnwys:
  - o Cefnogi dull Hawliau Plant a dull Dinas sy'n Deall Dementia a Niwroamrywiaeth.
  - o Cefnogi Pobl Ifanc â Phrofiad o Fod Mewn Gofal a Phlant sy'n Derbyn Gofal (PDG) a Gofalwyr yn unol â'r Siarter Rhianta Corfforaethol.
  - o Atal a chodi ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
  - o Hyrwyddo a noddi cyfleoedd i blant ac oedolion sy'n agored i niwed sydd angen gofal a chymorth h.y. digwyddiadau i ofalwyr.

**Rydym yn gofyn bod ein contractwyr yn:**
- Glynu wrth Bolisi Diogelu'r Cyngor ar gyfer Contractwyr a sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o arwyddion o gam-drin / niwed a beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon.

**Rydym yn annog ein contractwyr i:**
- Wneud ymrwymiadau Buddion Lles Cymunedol i gefnogi mentrau sydd wedi'u hanelu at gefnogi pobl ifanc ac oedolion agored i niwed lle caniateir yn y broses dendro.
- Arallgyfeirio eu gweithlu drwy raglenni recriwtio sy'n cynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Pobl Ifanc sydd â Phrofiad o Fod Mewn Gofal, PDG.

**Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi**
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymru hyrwyddo lles y rhai sydd angen gofal a chymorth, neu ofalwyr sydd angen cymorth.
- Mae'r Polisi Diogelu i Gontractwyr yn rhoi arweiniad i Gontractwyr fel eu bod yn deall eu rôl wrth gefnogi'r Cyngor i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio.

**Mae'r amcan Cymdeithasol Gyfrifol hwn yn canolbwyntio ar gefnogi ein heconomi leol drwy ddefnyddio ein pŵer prynu i helpu busnesau lleol a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ffynnu a rhoi hwb i gyflogaeth leol.**

**Rydym eisiau:** cefnogi ein heconomi leol drwy ddefnyddio ein pŵer prynu i helpu busnesau lleol a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ffynnu ac i gefnogi trigolion i sicrhau cyflogaeth dda.

**Rydym eisiau gweithio gyda sefydliadau:** fydd yn defnyddio cyflenwyr a chontractwyr lleol cymaint â phosibl trwy eu cadwyn gyflenwi ac yn ceisio'n benodol ddarparu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig a Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol.

**Rydym eisiau:**

- Hyrwyddo ein Blaengynllun Contractau i fusnesau lleol, a chynyddu nifer y cyfleoedd sy'n cael eu hysbysebu drwy GwerthwchiGymru.
- Hyrwyddo'n weithredol gyfleoedd i Fusnesau Micro, Bach a Chanolig (BMBaChau) a Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol gynnig am waith trwy, lle bo'n briodol, rhannu contractau mwy yn 'lotiau', cadw caffael o dan y trothwy ar gyfer BMBaChau/Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol, a chynnal gweithgareddau ymgysylltu cyn mynd i'r farchnad gan gynnwys digwyddiadau dod i adnabod y farchnad.
- Annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i gefnogi'r economi leol drwy ddefnyddio busnesau lleol yn eu cadwyni cyflenwi a llafur lleol lle bynnag y bo modd i gyflawni rhwymedigaethau contract a sicrhau eu bod yn talu'n brydlon.
- Annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i symud i economi leol fwy cylchol trwy atal gwastraff, lleihau gwastraff a chau dolenni cynnyrch a deunyddiau trwy gadw gwerth o fewn yr hierarchaeth adnoddau.
- Gweithio gyda phartneriaid fel Busnes Cymru, Business in Focus, Ffederasiwn Busnesau Bach a Siambr Fasnach De Cymru i wella sgiliau busnesau bach a chanolig lleol i gael mynediad at gyfleoedd yn y sector cyhoeddus.
- Sicrhau bod taliadau i gontractwyr a phob rhan o'r gadwyn gyflenwi yn cael eu gwneud o fewn telerau talu 30 diwrnod.

**Rydym yn gofyn bod ein contractwyr yn:**

- Hysbysebu cyfleoedd is-gontractio drwy GwerthwchiGymru, yn ogystal â'u sianeli arferol, a chynnal digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr (mae hyn yn ofyniad gorfodol ar gyfer pob contract gwaith dros £2 miliwn).
- Datblygu cadwyni cyflenwi lleol yn weithredol a chymryd camau i wella amrywiaeth cyflenwyr, gan gynyddu nifer y busnesau, BMBaChau a Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol sy'n eiddo i bobl o leiafrifoedd ethnig yn eu cadwyni cyflenwi.
- Gweithio gyda darparwyr cyflogadwyedd a sgiliau lleol – i wneud gwasanaethau lleol yn ymwybodol o ddatblygiadau cyn gynted â phosibl.
- Gweithio i hysbysebu'r holl swyddi gwag a chyfleoedd recriwtio drwy Cymunedau am Waith a Mwy, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith.
- Ymrwymo i nifer o'u gweithlu ddod o'r Sir neu'r ardal berthnasol, gan gynnwys y rhai a gyflogir drwy'r gadwyn gyflenwi, a sicrhau bod 25% o'r gweithlu, gan gynnwys y gadwyn gyflenwi, ar gontractau gwaith dros £5 miliwn yn dod o'r ardal leol.
- Talu cyflenwyr a chontractwyr sy'n cael eu his-gontractio o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb dderbyniol a cheisio talu BMBaChau, busnesau sy'n eiddo i bobl o leiafrifoedd ethnig a busnesau lleol 10 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb dderbyniol.
- Sefydlu Cyfrifon Banc Prosiectau i weinyddu taliadau i gontractwyr ac isgontractwyr ar gyfer contractau adeiladu gwerth mwy yn unol â pholisi cyfrif banc prosiectau (WPPN 03/21).

**Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi**

- Mae cytundebau masnach ryngwladol yn atal cyrff cyhoeddus Cymru rhag cyfyngu cyfleoedd contract i gyflenwyr o le penodol. Fodd bynnag, mae camau cadarnhaol i wneud contractau'n fwy hygyrch i gyflenwyr llai a lleol wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd lawer. Roedd hyn i ddechrau drwy'r Siarter Agor Drysau ar gyfer caffael sy'n ystyriol o fusnesau bach a chanolig a hefyd drwy Bolisi Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru.
- Economi sylfaenol: cynllun cyflawni | LLYW.CYMRU Mwy nag Ailgylchu | LLYW.CYMRU
- Mae'r thema hon wedi'i llywio gan WPPN 07/21: Gaffael sy'n ystyriol o fusnesau bach a chanolig ac yn ystyried beth allwn ni ei wneud i agor drysau i fusnesau bach a chanolig a mudiadau gwirfoddol trwy gadwyni cyflenwi. Mae gan GwerthwchiGymru swyddogaeth sy'n caniatáu hysbysebu Haen 1 eisoes.
- Mae gwelliannau i wefan GwerthwchiGymru ar y gweill, er mwyn sicrhau bod y platfform yn unol â'r ddeddfwriaeth gaffael ddiwygiedig a'i gwneud yn fwy hygyrch i sefydliadau yng nghadwyni cyflenwi adeiladu sector cyhoeddus Cymru.
- Mae cysylltiadau â Deddf Caffael y DU o ran gorfod ystyried rhwystrau y gall busnesau bach a chanolig eu hwynebu wrth gystadlu am gontractau a chadw caffael islaw'r trothwy ar gyfer busnesau bach a chanolig.

| Mae'r amcan Cymdeithasol Gyfrifol hwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo Diwylliant, Treftadaeth ac Iaith Gymraeg Fywiog. | |
|---|---|
| **Rydym eisiau:** hyrwyddo a gwarchod diwylliant Cymru, treftadaeth Cymru a'r Gymraeg. | **Rydym eisiau gweithio gyda sefydliadau sydd:** yn barod i chwarae rhan weithredol wrth hyrwyddo a gwarchod diwylliant Cymru, treftadaeth Cymru a'r Gymraeg. |
| Rydym eisiau:<br><br>**Diwylliant a Threftadaeth**<br>• Annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i gefnogi ystod o raglenni a mentrau diwylliannol a threftadaeth gan gynnwys:<br>o Cefnogi mynediad at asedau lleol fel llyfrgelloedd, cyfleusterau chwarae, amgueddfeydd, orielau, cyfleusterau chwaraeon, sefydliadau celfyddydol, adnoddau naturiol ac adeiladau hanesyddol i hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol ac ieithyddol.<br>o Hyrwyddo a chefnogi digwyddiadau diwylliannol.<br><br>**Y Gymraeg**<br>• Annog ein cyflenwyr a'n contractwyr i weithio gyda darparwyr fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu, defnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg | Rydym yn gofyn bod ein contractwyr yn:<br><br>**Diwylliant a Threftadaeth**<br>• Cefnogi chwaraeon cymunedol a llawr gwlad neu ddigwyddiadau diwylliannol eraill, gan gynnwys darparu mynediad at offerynnau cerdd neu gitiau chwaraeon.<br>• Cefnogi'r gwaith o warchod a gwella asedau/cyfleusterau diwylliannol neu safleoedd hanesyddol.<br>• Annog eu staff i wirfoddoli mewn lleoliadau cymunedol a diwylliannol.<br>• Cefnogi cyfleoedd i'r gymuned gael mynediad at gyfleoedd celfyddydol a chreadigol i hyrwyddo iechyd meddwl a lles.<br>• Annog staff a'u teuluoedd i gofrestru ar gyfer a defnyddio cerdyn llyfrgell am ddim.<br><br>**Y Gymraeg**<br>• Cydymffurfio â'n Safonau'r Gymraeg mabwysiedig fel y'u disgrifir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio â'r Gymraeg. Gweler Cod Ymarfer ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a Chynnig am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg; a Chanllaw Safonau'r Gymraeg i Drydydd Partïon Cyngor Caerdydd.<br>• Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi cyfleoedd i'w staff a/neu'r gymuned ehangach ddatblygu a/neu wella eu sgiliau Cymraeg. |

**Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi**

- Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol, gan gynnwys pob Cyngor yng Nghymru, i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae pob Cyngor Ardal wedi cyhoeddi Strategaeth Ddwyieithog sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ac i ddarparu amodau ffafriol i gefnogi twf yr iaith.
- Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn darparu ystod o ddogfennau sy'n cefnogi sefydliadau ar eu taith i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Nod Llesiant – "Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu".
- Cymraeg 2050 yw cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae pob Cyngor Ardal yn cynnal Strategaeth i Hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cefnogi prif themâu Cymraeg 2050 i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ac i ddarparu amodau ffafriol i gefnogi twf yr iaith. Mae'r Strategaethau Hyrwyddo hyn yn amrywio ar draws pob Cyngor Ardal
- Hysbysiad Cydymffurfio a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Cyngor Caerdydd
- Hysbysiad Cydymffurfio a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Cyngor Sir Fynwy
- Hysbysiad Cydymffurfio a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Cyngor Torfaen
- Hysbysiad Cydymffurfio a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Cyngor Bro Morgannwg

## Monitro ac Adrodd

Mae'r Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn amlinellu gweledigaeth Ardal ar gyfer sefydliadau sydd eisiau gweithio gydag unrhyw Gyngor Ardal. Bydd y Polisi yn cael ei weithredu trwy Strategaeth Gaffael a Chynllun Gweithredu Cymdeithasol Gyfrifol pob Cyngor. O 2026 ymlaen, bydd y cyflawniad yn cael ei fonitro a'i adrodd yn Adroddiad Caffael blynyddol pob Cyngor.



## Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am y polisi hwn, rhowch wybod i ni.

E-bost

caffaelardal@caerdydd.gov.uk

Gwefan:

https://ardal-caffael.llyw.cymru

### Os hoffech glywed gan Ardal

I dderbyn diweddariadau a newyddion gan Gynghorau Ardal yna sganiwch y Cod QR